Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent

# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Adroddiad ar yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu Drafft

Llywodraeth Cymru: Chwefror 2026

# 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad anstatudol â ffocws ynghylch yr Adroddiad Cwmpasu Drafft ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) ar gyfer Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent sy'n cael eu datblygu. Er nad yw'n ofynnol gwneud hynny o dan y Rheoliadau AAS ar hyn o bryd, cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu yn unol â'r arferion gorau oherwydd sensitifrwydd tirwedd Gwastadeddau Gwent, natur dechnegol yr asesiad, a phwysigrwydd sicrhau bod cyrff statudol, awdurdodau lleol, sefydliadau arbenigol, a thimau mewnol perthnasol Llywodraeth Cymru yn cael y cyfle i wneud sylwadau yn gynnar yn y broses.

## Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar:

- gyrff amgylcheddol statudol
- awdurdodau lleol sydd o fewn Gwastadeddau Gwent
- Cyrff anllywodraethol a chyrff trawsffiniol
- Cyfarwyddiaethau mewnol Llywodraeth Cymru sy'n cynnig mewnbwn arbenigol (Hawliau Plant, Newid yn yr Hinsawdd, y Môr a Bioamrywiaeth, y Gymraeg, ac ati)

*Cyhoeddwyd deg cwestiwn strwythuredig, wedi'u halinio â phroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig*

# 2. Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Isod mae strwythur ymgynghori ffurfiol Llywodraeth Cymru:

- Pennawd cwestiwn
- Crynodeb o'r ymatebion (Y rhan fwyaf / Rhai / Ychydig)
- Ymateb Llywodraeth Cymru (camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag ymgynghoreion penodol)

## Cwestiwn 1 – Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd Perthnasol

**C1:** A ydych yn cefnogi canfyddiadau'r adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion diogelu'r amgylchedd perthnasol? A oes unrhyw gynlluniau, rhaglenni neu amcanion diogelu'r amgylchedd ychwanegol yr hoffech eu hychwanegu? Os felly, beth ydyn nhw a pham? Oes rhai yr hoffech eu dileu o'r adolygiad? Os felly, pa un (rhai) a pham? (Cam A1 ac Atodiad A)

### Crynodeb o’r Ymatebion i Gwestiwn 1

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynlluniau a'r rhaglenni a restrwyd, gyda sawl un yn cynnig ychwanegiadau. Awgrymodd CNC, Natural England, Cyngor Sir Fynwy a Phartneriaeth Tirlun Lefelau Byw amrediad o gynlluniau cenedlaethol a thrawsffiniol perthnasol y dylid eu cynnwys.

Cynigiodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, ddogfennau technegol pellach; cwestiynodd rhai a ddylid cynnwys tystiolaeth neu ddogfennau hŷn nad oes ganddyn nhw statws polisi clir.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn dilyn argymhelliad CNC, cafodd y cyfeiriadau at ddyletswyddau SoDdGA eu hatgyfnerthu a'u diweddaru'n llawn. Cafodd cais Natural England am gynlluniau strategol trawsffiniol ei weithredu, ac mae'r rhain wedi cael eu hychwanegu at Atodiad A. Mae LNRAP (Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol) Cyngor Sir Fynwy wedi'i gynnwys yn llawn. Ni weithredwyd awgrym i gydnabod Gwastadeddau Gwent yn Dirwedd Genedlaethol bosibl, gan fod hyn yn gysylltiedig â'r canllawiau yn hytrach na'r cam cwmpasu. Ni dderbyniwyd rhai dogfennau tystiolaeth nad ydyn nhw wedi cael eu cyhoeddi, neu sydd wedi dyddio, gan nad oedden nhw wedi cael cymeradwyaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru.

## Cwestiwn 2 – Gwybodaeth Llinell Sylfaen

**C2:** A ydych yn cytuno â'r wybodaeth llinell sylfaen rydyn ni wedi'i nodi? A yw hon wedi cael ei hesbonio ar lefel briodol? Os na, esboniwch pam a rhoi dolen i'r dystiolaeth amgen neu dystiolaeth bellach? (Cam A2 ac Atodiad B)

### Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiwn 2

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r llinell sylfaen a gyflwynwyd. Cynigiodd CNC, Cadw, Natural England, ac eraill ychwanegiadau, esboniadau a ffynonellau data wedi'u diweddaru. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen i gyfeirio at "tir a dŵr y mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig" a niwtraliaeth maethynnau. Tynnodd ychydig o ymatebwyr sylw at fylchau tystiolaeth ynghylch rhywogaethau a chynefinoedd.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Arweiniodd sylwadau CNC at gywiriadau i gategorïau cyrff dŵr a chyfeiriadau gwell. Mae cais Cadw i gynnwys adroddiad Ardal Cymeriad Tirwedd Hanesyddol Gwastadeddau Gwent wedi cael ei weithredu'n llawn. Mae awgrymiadau Natural England ynghylch cysylltiadau swyddogaethol ac effeithiau maethynnau wedi cael eu hymgorffori yn y naratif llinell sylfaen. Mae'r risgiau ehangach sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi cael eu hadlewyrchu. Cafodd bylchau tystiolaeth wedi'u nodi gan Bartneriaeth Tirlun Lefelau Byw eu cydnabod, er bod casglu data newydd yn fater ar gyfer canllawiau a gwaith gweithredu yn y dyfodol, nid y cam cwmpasu.

## Cwestiwn 3 – Problemau a Chyfleoedd o ran Cynaliadwyedd

**C3:** A ydych yn cytuno â'r problemau o ran cynaliadwyedd rydyn ni wedi'u nodi? Os nac ydych, pa un (rhai) a pham? A oes problemau ychwanegol y dylai'r ISA eu hystyried? Os oes, beth ydyn nhw? (Cam A3 a Thabl 4-1)

### Crynodeb o’r Ymatebion i Gwestiwn 3

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r problemau a'r cyfleoedd. Ceisiodd rhai ymatebwyr, yn enwedig CNC a Natural England, ddeunydd ehangach ar wydnwch ecosystemau, systemau draenio a rheoli tir yn gynaliadwy. Yr angen i bwysleisio mynediad at natur a chyfleoedd hamdden i blant a phobl ifanc. Cynigiodd ychydig o ymatebwyr gyfleoedd lleol ychwanegol, megis cefnogaeth ar gyfer cynhyrchu bwyd ffres.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Ychwanegwyd geiriad diwygiedig yn Nhabl 4-1 i bwysleisio mynediad, chwarae a dulliau sy'n seiliedig ar hawliau. Arweiniodd sylwadau CNC at ddiffiniadau cliriach o "system ddraenio naturiol" a chyfeiriad mwy eglur at wydnwch ecosystemau. Cafodd cynigion Natural England ynghylch mynediad at natur a rheoli tir yn gynaliadwy eu hintegreiddio. Ychwanegwyd pwynt Cyngor Sir Fynwy ynghylch systemau bwyd lleol gwydn at y tabl cyfleoedd. Nid ychwanegwyd ceisiadau am ddogfennau technegol rhy benodol (e.e., SMP2) ar yr adeg hon.

## Cwestiwn 4 – Amcanion a Chwestiynau'r ISA

**C4:** A oes unrhyw newidiadau rydych yn ystyried y dylid eu gwneud i Amcanion neu Gwestiynau'r ISA? Os felly, nodwch y newidiadau a geisiwyd a'r rheswm dros y newidiadau rydych wedi'u hawgrymu. (Cam A4 a Thabl 51)

### Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiwn 4

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r amcanion. Cynigiodd rhai ymatebwyr y gellid mireinio rhai elfennau: gan gynnwys cyfeiriadau cryfach at hawliau cyfranogi; ychwanegu "grips" at gyfeiriadau at nodweddion tirwedd; cyfeiriad penodol at archaeoleg wedi'i chladdu; a chynnwys cynefinoedd na ellir eu disodli.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae cynigion y Tîm Hawliau Plant wedi cael eu gweithredu drwy ehangu cyfeiriadau at Erthyglau 12 a 2 CCUHP. Mae argymhellion CNC ynghylch gwrthsefyll llifogydd a "grips" wedi'u hymgorffori yn amcanion diwygiedig yr ISA. Mae cais Cadw ynghylch archaeoleg wedi'i chladdu wedi cael ei ychwanegu fel amcan newydd. Mae cynnig yr RSPB i gyfeirio at gynefinoedd na ellir eu disodli (fel y'u diffinnir gan PCC) wed cael ei ymgorffori. Mae rhai sylwadau Natural England ynghylch cwmpas daearyddol wedi cael sylw drwy fireinio geiriad.

## Cwestiwn 5 – Datblygu Opsiynau Amgen Rhesymol

**C5:** A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â sut y dylid datblygu opsiynau amgen rhesymol?

### Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiwn 5

Argymhellodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, y dylai opsiynau amgen rhesymol ystyried Mannau Gwyrdd Naturiol Amgen Cynaliadwy at ddibenion lliniaru. Pwysleisiodd rhai yr angen am ddull fesul cam o ymdrin ag effeithiau ecolegol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae pwyntiau Cyngor Dinas Casnewydd wedi cael eu nodi a byddan nhw'n llywio camau nesaf yr ISA. Mae awgrymiadau sy'n ymwneud â'r dull polisi manwl ar gyfer y Canllawiau yn hytrach na'r cam cwmpasu wedi cael eu gohirio fel sy'n briodol.

## Cwestiwn 6 – Cwmpas yr ISA a'r Arfarniad Arfaethedig

**C6:** A oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach ynglŷn â chwmpas yr ISA a'i arfarniad arfaethedig o Ganllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent?

### Crynodeb o’r Ymatebion i Gwestiwn 6

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cwmpas. Gofynnodd CNC am newidiadau i'r diagram cylch oes sy'n dangos y camau ymgynghori a chyhoeddi. Nododd rhai yr angen am esboniadau o weithdrefnau.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r newidiadau a argymhellwyd gan CNC i Ffigur 1-1 wedi cael eu gwneud. Roedd sylwadau ynghylch gweithdrefnau'n ddefnyddiol ond nid oedd angen newidiadau i'r ddogfen gwmpasu ei hun.

## Cwestiwn 7 – Integreiddio Asesiadau Effaith

**C7:** A ydych yn cefnogi'r dull o integreiddio'r asesiadau effaith? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau.

### Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiwn 7

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dull integredig. Argymhellodd y Tîm Hawliau Plant ddefnyddio erthyglau CCUHP yn benodol a'u codio/tagio er mwyn hygyrchedd. Cwestiynodd rhai ymatebwyr y berthynas rhwng asesiadau statudol ac asesiadau anstatudol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae canllawiau'r Tîm Hawliau Plant wedi cael eu hymgorffori, a phellach mae cyfeiriadau penodol at Erthyglau 2, 12, 13, a 42. Mae'r cais ynghylch codio gwe wedi cael ei anfon at dîm gwe Llywodraeth Cymru. Bydd eglurhad ynghylch cwmpas asesiadau'n cael eu trafod drwy strwythur terfynol yr ISA ond nid oedd angen newidiadau i'r cam cwmpasu.

## Cwestiwn 8 – Canfyddiadau Sgrinio Cychwynnol (Tabl 2-1)

| |
|---|
| **C8:** A ydych yn cefnogi canfyddiadau'r gwaith sgrinio cychwynnol ar gyfer yr asesiadau effaith yn Nhabl 2-1? Os nac ydych, nodwch pa ganfyddiadau a'ch rhesymau. |

### Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiwn 8

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r canlyniadau sgrinio. Gofynnodd rhai am erthyglau ychwanegol (CCUHP) neu ragor o fanylion ynghylch effeithiau negyddol posibl.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Arweiniodd cais y Tîm Hawliau Plant am erthyglau ychwanegol CCUHP at ehangu cwmpas y sgrinio. Mae cais CNC am esboniad cryfach o arwyddocâd effeithiau wedi cael eu nodi ar gyfer cam nesaf yr ISA.

## Cwestiwn 9 – Data neu Dystiolaeth Llinell Sylfaen Ychwanegol

**C10:** A oes darnau ychwanegol o ddata neu dystiolaeth sylfaenol y dylai'r ISA eu hystyried yn benodol mewn perthynas â'r asesiadau effaith yn Nhabl 2-1? Os felly, nodwch beth yw'r rhain a pham y dylid eu defnyddio, ynghyd â ble neu sut y gellir dod o hyd iddyn nhw.

### Crynodeb o’r Ymatebion i Gwestiwn 9

Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen setiau data pellach, gan gynnwys data ecolegol trawsffiniol a deunyddiau ysgrifenedig ynghylch addasu i'r hinsawdd. Cyfeiriodd Tîm Hawliau Plant at Sylw Cyffredinol Rhif 26 a Sylwadau Terfynol CCUHP. Pwysleisiodd ychydig o ymatebwyr fod bylchau sylweddol mewn gwybodaeth sylfaenol am ecoleg yn gyffredinol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae cyfeiriadau'r Tîm Hawliau Plant wedi cael eu hychwanegu at Atodiad B. Mae ceisiadau am setiau data ecolegol newydd helaeth wedi cael eu cydnabod ond maen nhw y tu allan i gwmpas y cam cwmpasu. Lle bo modd, cyfeirir at ffynonellau trawsffiniol.

## Cwestiwn 10 – Sylwadau eraill

| **C10:** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill? |
| --- |

### Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiwn 10

Rhoddodd yr holl ymatebwyr sylwadau terfynol cefnogol gyda dim ond tri ymatebydd yn gwneud argymhellion. Tynnodd CNC sylw at yr angen i egluro cyfrifoldebau rheoli ar gyfer ffosydd. Roedd y Tîm Hawliau Plant yn annog fformatau sy'n addas i blant. Cafodd sylwadau eraill eu hintegreiddio'n well i'r canllawiau.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r geiriad mae CNC wedi'i argymell ynghylch cyfrifoldeb rheoli wedi cael ei gynnwys. Mae'r cyngor hawliau plant ynghylch  cyfathrebu sy'n addas i blant wedi cael ei nodi ar gyfer dylunio cyhoeddiadau. Mae cynigion dynodi tirwedd y tu allan i gwmpas yr ISA, felly ymdrinnir â'r mater hwn ar wahân o fewn trafodaethau datblygu polisi.

# 3. Y Camau Nesaf

Mae'r holl welliannau sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn wedi cael eu hymgorffori yn Adroddiad Cwmpasu terfynol yr ISA lle bo hynny'n briodol. Mae Adroddiad Cwmpasu terfynol yr ISA yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â chyhoeddi Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent. Bydd rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu pan fydd y rhain yn cael eu cyhoeddi a bydd y gwaith gweithredu'n parhau gydag awdurdodau lleol, CNC a thimau mewnol Llywodraeth Cymru wrth i'r prosiect symud i gam nesaf yr ISA.

# 4. Atodiad A – Rhestr o Ymgyngoreion

## Ymgyngoreion Statudol

- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Cadw

## Awdurdodau Lleol

- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Caerdydd

## Cyrff Trawsffiniol ac Allanol

- Natural England
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Y Sefydliad Rheoli Morol
- Partneriaeth Tirlun Lefelau Byw
- Partneriaeth Aber Afon Hafren
- Gweithgor Gwastadeddau Gwent

## Cyfarwyddiaethau Mewnol Llywodraeth Cymru

- Y Tîm Hawliau Plant
- Yr Is-adran Newid Hinsawdd
- Uned y Gymraeg
- Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth
- Arweinwyr yr Asesiad Effaith Integredig
- Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio (Cymru'r Dyfodol, Tîm Gwastadeddau Gwent)